**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 437**
**1 Ebrill, 2020 - Cyfarfod dros Skype**

**Presennol:**
**Aelodau Anweithredol y Bwrdd:**

| | |
|---|---|
| Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |

**Aelodau Gweithredol y Bwrdd Unedol Cysgodol:**

| | |
|---|---|
| Owen Evans | (Prif Weithredwr) (Eitemau 1-8) |
| Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |

**Hefyd yn bresennol:**
**Staff S4C:**

| | |
|---|---|
| Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| Catrin Hughes Roberts | (Cyfarwyddwr Partneriaethau) (Eitem 4) |
| Steve Cowin | (Prif Swyddog Technegol) |
| Rhys Bevan | (Rheolwr Gweithrediadau Cynnwys) |
| Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C.

Diolchodd y Bwrdd i HHE am ei holl waith fel Cadeirydd dros dro ers mis Medi 2019. Ategodd RhW ei fod yn ddiolchgar i HHE am ei gydweithrediad a'i gefnogaeth yn ystod y misoedd diwethaf oedd wedi caniatáu i RhW ddechrau ar y gwaith o edrych i'r dyfodol.

Nododd HHE ei bod wedi bod yn anrhydedd i wasanaethu fel Cadeirydd dros dro. Roedd wedi mwynhau'r gwaith yn fawr, a diolchodd i'r Bwrdd a'r swyddogion am eu cefnogaeth. Dymunodd yn dda i RhW fel Cadeirydd newydd S4C.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Nododd SL ei diddordeb o ran y drafodaeth ar COVID-19 a threfniadau Eisteddfod yr Urdd. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau pellach.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran Bwrdd Unedol S4C ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion Cyfarfod Mawrth 18fed**

Cyflwynwyd gofnodion cyfarfod gynhaliwyd ar y 18fed o Fawrth
Cadarnhawyd fod y cofnodion yn gywir.

3. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau**

Nodwyd y cofrestr. Byddai nifer o'r pwyntiau gweithredu parthed COVID-19 a chydleoli yn codi fel rhan o'r drafodaeth.

4. **Ymateb S4C i ddadgriminaleiddio'r Ffî Drwydded**

Cyflwynwyd ymateb drafft S4C i'r ymgynghoriad ar ddadgriminaleiddio'r Ffi Drwydded. Cytunodd y Bwrdd fod yr ymateb yn glir ac yn gryno. Awgrymodd OD y dylid ychwanegu frawddeg am rôl S4C yn cefnogi'r sector annibynnol a'r economi yng Nghymru a chytunodd CHR i wneud hynny cyn danfon yr ymateb i DCMS erbyn pump o'r gloch.

5. **Adroddiad y Cadeirydd**

Dywedodd RhW eu fod yn edrych ymlaen i weithio gyda'r Bwrdd a staff S4C dros y blynyddoedd i ddod. Roedd wedi ceisio crynhoi'r her a'r cyfleoedd oedd yn wynebu S4C yn y blynyddoedd nesaf fel rhan o'i dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol yn ystod y gwrandawiad cyn penodi. Ni ddylai swnio'n anghyfarwydd i'r Bwrdd. Ond wrth gwrs, yr heriau tymor byr ynghylch COVID-19 oedd y ffocws dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

**Ymateb S4C i COVID-19**

Amlinellodd OE rhai o'r prif bwyntiau. Roedd OE ac AR wedi bod yn brysur o ran cyfweliadau gyda'r wasg. Roedd OE hefyd yn cynnal sesiwn wythnosol gyda'r staff dros Skype ac roedd mesuriadau cadarn mewn lle o ran sicrhau iechyd â diogelwch y gweithlu. Roedd y buddsoddiad a wnaethpwyd o ran gweithio'n hyblyg nawr yn gymorth mawr o dan yr amgylchiadau a'r penderfyniad i gadw Parc Tŷ Glas yn un doeth. Roedd swyddogion mewn cysylltiad agos gyda TAC a'r sector, ac yn gweithio gyda DCMS a Llywodraeth Cymru. Roedd cryn dipyn wedi'i gyflawni mewn amser byr iawn.

Fel gwyliwr, nododd AG bod y darlledu yn edrych yn hynod o broffesiynol gyda rhaglenni fel Heno wedi addasu yn effeithiol. Diolchodd AR am ei sylwadau.

Holodd HHE os oedd unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r goblygiadau ariannol i S4C, o ystyried fod pob gwasanaeth cyhoeddus o dan bwysau mawr. O ran y gyllideb cynnwys, nododd SW fod y rhan fwyaf o'r cynnwys wedi'i gyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2019/20. Felly byddai angen ystyried yr effaith ar gyllideb 2020/21 a 2021/22. Roedd DCMS wedi comisiynu asesiad effaith ariannol ac roedd S4C wedi ymateb.

Gofynnodd HHE am y goblygiadau posib i'r sector. Nododd OE fod cyfarfodydd wythnosol gyda TAC a'r bwriad oedd trefnu galwadau gyda chwmnïau unigol.

Roedd swyddogion yn ystyried dulliau o gynorthwyo'r cwmnïau ac wedi bod yn diweddaru'r sector ar y cymorth sydd ar gael gan y llywodraeth.

O ran yr effaith ariannol ar S4C, roedd hi'n amhosib mesur y goblygiadau hir dymor yn fanwl. Yn hytrach na'r haf, byddai adolygiad gwariant Llywodraeth y DU yn ystod yr hydref.

**[Crynodeb:** Holodd y Bwrdd ynglŷn â manylion y cymorth i'r sector. Esboniodd EM y prif fesurau dan ystyriaeth, sef:

- rhedeg cylch comisiynu cyflym,
- rhyddhau arian i gwmnïau sy'n datblygu rhaglenni (er mwyn eu cynhyrchu cyn gynted ag y bydd argyfwng Covid-19 yn caniatáu),
- cyflymu trefniadau talu ar gynyrchiadau sydd â chontractau yn eu lle, ac
- edrych yn garedig ar sefyllfaoedd ble nad yw cerrig milltir cynhyrchu wedi'u cyrraedd yn llawn oherwydd problemau a achoswyd gan COVID.

Roedd S4C yn cadw llygaid agos ar gwmnïau a byddai OE, EM ac AR yn sgwrsio gyda rheolwyr y cwmnïau unigol dros yr wythnosau nesaf. Ychwanegodd EM fod canllawiau o'r Trysorlys o ran cefnogi cwmnïau a chyflenwyr yn ystod y cyfnod yma. Byddai sesiwn gyda'r sector ar 8 Ebrill a'r bwriad oedd trefnu datganiad i'r wasg ar yr un diwrnod i gyhoeddi'r pecyn.

Nododd OE taw'r cam cyntaf i gwmnïau oedd edrych ar y cymorth busnes oedd ar gael gan Llywodraeth y DU a Cymru. Tynnwyd rhestr at ei gilydd yn esbonio pa gymorth oedd ar gael i'r sector. Ategodd HHE bod gan awdurdodau lleol hefyd grantiau ar gael i fusnesau. Nododd fod angen bod yn ofalus nad oedd cwmnïau yn derbyn cyllid o wahanol ffynonellau am yr un dibenion.]

Nododd y Bwrdd, o'r diweddariad, bod swyddogion yn gwneud popeth oedd yn bosib i gefnogi'r sector a bod hynny'n gall ac yn rhesymol.

7. **Darlledu/Technoleg**

Esboniodd SC fod llawer o'r staff bellach wedi'u hadleoli o Sgwâr Canolog yn ôl i Landaf er mwyn canolbwyntio ar y gwasanaeth darlledu. Nodwyd hefyd fod rhai o staff S4C bellach yn ôl ym Mharc Ty Glas. Roedd galwad dyddiol gyda'r BBC a nodwyd fod popeth yn gweithio'n iawn ar hyn o bryd gyda lefelau staffio dderbyniol yn Parc Tŷ Glas.

**[Crynodeb:** Roedd profion awtomeiddio eisoes wedi digwydd gyda'r tîm yn dilyn i fyny ar y canlyniadau. Cynhaliwyd prawf llawn DR gyda'r sianel siopa.

Dim ond staff technegol a darlledu oedd gyda mynediad bellach i PTG gyda phawb arall yn gweithio o adref. Nodwyd bod symud i Office365 wedi bod yn fuddiol o ran galluogi a hwyluso staff i weithio o gartref.

Roedd y mwyafrif o'r gwaith digideiddio'r archif bellach wedi'i gwblhau, a byddai un aelod o'r tîm yn dychwelyd er mwyn gorffen rhywfaint o'r gwaith oedd ar ôl.]

8. **Cynnwys**

Esboniodd AR sut oedd yr amserlen wedi'i effeithio hyd yn hyn.

**[Crynodeb:** Ni fydd cyfran o'r rhaglenni yn cael eu cyfleu ar amser, gyda rhai o'r rheini yn cael eu canslo yn gyfan gwbl. Yn amlwg doedd dim chwaraeon na digwyddiadau, ac roedd rhan helaeth o'r ffilmio wedi gorfod dod i ben, gan gynnwys Pobol y Cwm, Rownd a Rownd, a rhai dramâu. Roedd y diffyg chwaraeon a'r digwyddiadau dros yr haf yn mynd i gael effaith mawr ar gyrhaeddiad. Yn ystod yr wythnosau diwethaf nodwyd fod gwylio yn yr oriau brig i fyny, a hynny yn fwy na chyfartaledd sianelau eraill.]

Dywedodd AR fod llawer o waith yn edrych ar yr effaith posib i'r amserlen yn y tymor byr, canolig a hir. Yn y tymor byr, bwriedir cadw amserlen yr oriau brig mor llawn â phosib, gyda chomisiynu sydyn fydd yn creu gwasanaeth sy'n rhoi gwybodaeth, cysur a chomedi i'r gwylwyr. Roedd hyn yn cynnwys: Oedfa ar fore Sul, y Byd yn ei Le a'r Byd ar Bedwar, rhaglen newydd bwyd gyda Chris Roberts, rhaglen Cymru o'r awyr, a gobeithio, Helo Syrjeri a Ffit Cymru.

O ran y tymor canolig, byddai cylch comisiynu cyflym yn digwydd ar gyfer cynnwys hyd at ddiwedd Gorffennaf. Roedd ffilmiau gwybodaeth gyhoeddus wedi'i chomisiynu'n barod a darn o farddoniaeth gan Mererid Hopwood. Roedd deunydd yn cael ei greu ar gyfer Hansh a gwaith i lansio sianel pop-up newydd o'r enw Yma i Chi.

Roedd AR am ddiolch i'r sector ac i staff S4C am yr holl waith caled. Yn benodol, nodwyd fod Tinopolis wedi gwneud gwaith rhagorol i gadw Heno ar yr awyr.

Nodwyd bod S4C wedi derbyn nifer o sylwadau gan bobl oedd eisiau gweld mwy o'r clasuron o'r archif. Fodd bynnag, byddai angen ystyried y gost o ailddarlledu ac esboniodd AR yr her o glirio'r hawliau ar gyfer S4C Clic.

Nododd AR fod trafodaethau'n parhau gyda chwmnïau o ran llenwi oriau'r digwyddiadau dros yr haf. Gobeithir y byddai modd gwneud rhywbeth digidol.

Roedd canmoliaeth fawr gan y Bwrdd i'r hyn oedd S4C wedi cyflawni dros yr wythnosau diwethaf a diolch arbennig i'r staff.

9. **Masnachol**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd EM adroddiad ar lafar am berfformiad y gwahanol fuddsoddiadau.]

10. **Cyfathrebu/Hyrwyddo**

Esboniodd GW fod tair elfen i'r cyfathrebu yn sgil COVID-19.

Yn gyntaf, roedd yn bwysig diweddaru'r staff yn fewnol trwy e-byst, cyfarfodydd staff ac ati. Roedd dros 90 o staff wedi mynychu'r ail gyfarfod staff rhithiol y bore yma.

Yr ail elfen oedd cyfathrebu gyda'r gwylwyr gyda gwybodaeth gyson am raglenni ac esbonio sut oedd y gwasanaeth yn addasu yn ystod y cyfnod yma. Roedd hyn yn digwydd trwy wahanol ffurf e.e. ar y sgrin, trwy'r wasg ac e-byst.

**[Crynodeb:** Yn wyneb problemau staffio roedd rhai cwmnïau cynhyrchu wedi medru creu rhywfaint o promos i S4C.]

Y drydedd elfen oedd cyfathrebu gyda'r sector a rhanddeiliaid allweddol megis gwleidyddion.

**[Crynodeb:** Roedd OE wedi siarad â John Wittingdale o'r DCMS.

Roedd S4C hefyd wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a'r DCMS ayyb i bwyso a gofyn am becynnau cymorth i'r sector a'r diwydiannau creadigol, yn enwedig ar gyfer pobl llawrydd.

Roedd OE ac AR hefyd wedi gwneud cyfweliadau gyda Golwg, Heno, C21, Broadcast ayyb.]

11. **Unrhyw Fater Arall**

Cytunodd y Bwrdd y dylai OD gadeirio'r Pwyllgor Cynnwys o hyn ymlaen.

Nodwyd fod Pwyllgor Dethol DCMS wedi cyhoeddi archwiliad ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac wedi gwahodd ymatebion ysgrifenedig erbyn 30 Ebrill. Cytunwyd y dylai S4C ymateb a byddai drafft yn barod ar gyfer ystyriaeth a chymeradwyaeth y Bwrdd ar 23 Ebrill.

Yn ystod yr argyfwng hwn, nododd RhW ei bod yn synhwyrol i aelodau gysylltu yn gyson a gofyn unrhyw gwestiynau drwy e-bost os cyfyd unrhyw beth. Byddai OL yn parhau i ddiweddaru'r Bwrdd trwy e-byst.